# PWYLLGOR CYNLLUNIO 27/4/15

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd Michael Sol Owen – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones – Is-gadeirydd**

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Endaf Cooke, Gwen Griffith, June Marshall, W. Tudor Owen, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, Owain Williams ac Eurig Wyn.

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorydd Anwen Davies (Aelod lleol).

**Hefyd yn bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio), Cara Owen (Rheolwr Rheolaeth Datblygu), Aneurin Môn Parry (Rheolwr Gorfodaeth), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr), Gareth Roberts (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu Trafnidiaeth) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Dyfrig Wynn Jones a'r Cynghorydd Ann Williams (Aelod Lleol).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(a) Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

(b) Datganodd yr aelodau canlynol eu bod yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitemau a nodir:

- Y Cynghorydd Anwen Davies, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 6 ar y rhaglen, (ceisiadau cynllunio rhifau C14/0593/40/LL a C15/0162/33/LL);
- Y Cynghorydd Eirwyn Williams, (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 6 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C14/1001/35/LL).

Ymneilltuodd yr Aelodau i ochr arall y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau dan sylw ac ni fu iddynt bleidleisio ar y materion hynny.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2015, fel rhai cywir yn ddarostyngedig i ychwanegu enw'r Cynghorydd Tudor Owen o dan yr aelodau a oedd yn bresennol ar dudalen 1.

## 3. GORCHYMYN CAU FFORDD (RHAN O YMYL Y FFORDD GERLLAW'R A496 YN LLANELLTYD)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu Trafnidiaeth. Adroddwyd y cwblhawyd cynllun yn yr 1980au cynnar i wella'r tro ar yr A496 heibio'r eiddo a adnabyddir fel Maes y Garnedd a Phen y Garnedd yn Llanelltyd, i'r gorllewin o ysgol gynradd y pentref.

Nodwyd y derbyniwyd cais i brynu rhan o'r ymyl gwyrdd gyda bwriad i'w gynnwys fel estyniad i ardd Pen y Garnedd. Adroddwyd y byddai stribyn 2 fedr o led yn cael ei gadw fel priffordd, gyfochrog a'r ffordd er mwyn diogelu gwelededd digonol, lle ar gyfer gwasanaethu tanddaearol a mynediad i golau stryd, a lloches i gerddwyr a beicwyr.

Nodwyd y byddai telerau pryniant a gwerth y tir yn fater i Adran Eiddo'r Cyngor i'w gytuno gyda'r ymgeisydd.

Nododd mai bwriad y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd yw cyflwyno cais i'r Llys Ynadon i gau fyny'r ardal o ymyl gwyrdd gan dybir ei fod bellach ddim yn angenrheidiol fel priffordd fabwysiedig, ac o ganlyniad lleihau'r baich cynnal ar yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nodwyd yr ymgynghorwyd efo'r holl ymgynghorai statudol ond ni dderbyniwyd ymateb gan yr aelod lleol.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r cynnig i gyflwyno cais i'r Llys Ynadon i gau fyny rhan o'r ymyl gwyrdd gerllaw'r A496 o flaen yr eiddo ac adnabyddir fel Pen y Garnedd, ar y sail nad yw bellach yn angenrheidiol fel priffordd.**

**4. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu.

Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

**PENDERFYNWYD**

**1. Cais rhif C14/0593/40/LL – Tanybryn, Rhydyclafdy**

Gosod tyrbin gwynt 30.5m i'r hwb (45m i frig y llafn), blwch rheoli a gwaith cysylltiedig.

Adroddwyd bod y cais uchod wedi ei dynnu'n ôl.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r uchod**.

**2. Cais rhif C14/0657/15/LL – Cartref Preswyl Plas Garnedd, Llanberis**

Codi estyniad deulawr i gartref preswyl presennol i gynnwys 24 ystafell wely ychwanegol a chyfleusterau cysylltiol.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais, gan nodi bod y safle wedi ei leoli oddi mewn i ffiniau datblygu pentref Llanberis a ddiffinnir fel canolfan lleol yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDUG).

Tynnwyd sylw at bryder trigolion cyfagos na fyddai'r sustem garffosiaeth yn gallu ymdopi gyda'r ychwanegiad gan gyfeirio at broblemau yn y gorffennol a honnir a ddeillir o safle Plas Garnedd. Adroddwyd bod Dŵr Cymru wedi cynnal arolwg CCTV o'r rhwydwaith lleol er mwyn 'sefydlu cyfanrwydd a pherfformiad y rhwydwaith' yn ogystal ag archwiliadau pellach. Nodwyd yn dilyn yr holl ymchwil a thrafodaethau rhwng asiant y cais a Dŵr Cymru, daethpwyd i'r ddealltwriaeth y byddai arllwysion o'r estyniad newydd yn arwain i mewn i sustem breifat ar y safle ac nid i'r rhwydwaith cyhoeddus lleol. Nodwyd bod Dŵr Cymru bellach yn fodlon y gellir rheoli'r trefniadau gan gynnwys amod ffurfiol safonol i gytuno ar strategaeth ddraenio gyflawn i'r safle.

Cyfeiriwyd yn ogystal at achosion o ddŵr gwyneb yn arllwys o'r safle gan effeithio ar eraill yn y cyffiniau, nodwyd y byddai modd geirio'r amod i gynnwys trefniadau delio gyda dŵr gwyneb yn ogystal er mwyn cytuno ar drefniant priodol ar gyfer y safle gan sicrhau na effeithir ar drigolion lleol i raddau annerbyniol.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd gwrthwynebydd y prif bwyntiau canlynol:-
- Ei bod yn bresennol ar ran cymydog a oedd yn cael ei effeithio'n andwyol gan garffosiaeth Plas Garnedd;
- Nad oedd yn erbyn y datblygiad ond roedd angen gosod amod bod rhaid datrys y problemau carffosiaeth;
- Gofyn i Dŵr Cymru a'r Cyngor gadw golwg ar y sefyllfa yn ystod y cyfnod adeiladu;
- Y dylid darparu pwynt cyswllt yn y Cyngor yw chymydog.

(c) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu bod archwiliad Dŵr Cymru wedi dangos bod capasiti yn y sustem a byddai'r wybodaeth o ran y problemau yn cael eu hanfon ymlaen atynt. Nodwyd y gwelir cyfle efo'r gwaith yma i wella'r sefyllfa bresennol.

Nododd aelod ei bod yn gefnogol i'r bwriad ond bod angen gosod amod yn ymwneud gyda chytuno ar gynllun traenio cynhwysfawr a bod y gwaith yn ymwneud gyda'r cynllun yma wedi cael ei gwblhau cyn preswylio'r estyniad.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:
1. Amser
2. Cydymffurfio gyda'r cynlluniau
3. Llechi
4. Cytuno ar ddeunyddiau allanol
5. Tirlunio
6. Cytuno ar gynllun draenio cynhwysfawr
7. Oriau gweithio
8. Nodyn Cyfoeth Naturiol Cymru

**3. Cais rhif C14/1001/35/LL – Storfa, yng nghefn 31 Lôn y Castell, Cricieth**

Trosi cyn fecws/storfa yn annedd.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais am ganiatâd, gan nodi bod yr adeilad wedi ei leoli yn yr Ardal Gadwraeth ar safle y tu cefn i rhesdai Stryd y Castell a Sgwâr y Dref. Nodwyd na fyddai'r datblygiad yn golygu newid sylweddol i gymeriad yr adeilad a byddai'n gwella ansawdd a chyflwr y safle a'r ardal o gwmpas.

Adroddwyd yn dilyn derbyn gohebiaeth yn codi pryder ynghylch agosrwydd y ffenestr ar y llawr cyntaf yn yr edrychiad de-orllewinol i ffenestri cefnau tai Sgwâr y Dref, y dylid gosod amod bod gwydr afloyw yn y ffenestr hon er mwyn goresgyn pryderon goredrych o'r datblygiad.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Nododd yr aelod lleol, (a oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), ei fod yn cydweld ag argymhelliad y swyddogion ond yn gofyn am eglurder o ran yr amod Deunyddiau / Llechi.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelod lleol, nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu fod yr amod yn un safonol lle cytunir ar y llechi a ddefnyddir. Nodwyd y byddai'r llechi unai yn rhai Cymraeg neu rhai sy'n cyfateb i lechi Cymraeg.

(c) Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu'r cais.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed pryder ynghylch mynediad a godwyd fel rhan o ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, nodwyd bod y cynlluniau wedi eu diwygio a ni ddarperir llecyn parcio yn y datblygiad gan mai hawl tramwy ar droed yn unig sydd gan yr ymgeisydd ar y darn yma o dir. Nodwyd oherwydd bod y safle hwn yn un hygyrch ystyrir nad oes angen darparu parcio neilltuol ar ei gyfer.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:
1. 5 mlynedd
2. Gwaith yn unol â'r cynlluniau
3. Deunyddiau / Llechi
4. Tynnu hawliau cyffredinol a ganiateir
5. Amodau dŵr
6. Amod ystlumod
7. Defnyddio gwydr afloyw yn y ffenestr ar y llawr cyntaf yn yr edrychiad de-orllewinol

**4. Cais rhif C15/0110/30/LL - Methlem, Rhoshirwaun**

Creu safle carafanau teithiol i 6 carafán, adeiladu bloc toiled gosod system trin carthion a thirlunio.

Adroddwyd bod y cais uchod wedi ei dynnu'n ôl.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r uchod**.

**5. Cais rhif C15/0112/11/LL – 219 Ffordd Penrhos, Bangor**

Codi estyniad ar gefn yr eiddo.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Gorfodaeth ar gefndir y cais gan nodi bod yr eiddo wedi ei ymestyn yn sylweddol yn y gorffennol drwy amryw o geisiadau cynllunio, ond er hynny mae'r eiddo yn parhau i gydweddu a maint ei safle.

Nodwyd o ran mwynderau cymdogion, er cydnabyddir y byddai'r estyniad yn cael effaith ar ardal union tu cefn i'r eiddo drws nesaf, ni ystyrir fod yr effaith yma yn sylweddol nac yn andwyol.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-
- Bod materion cynllunio yn y gorffennol yn amherthnasol;
- Y byddai'r estyniad yn llai na 9% o'r holl dŷ;
- Y byddai'r estyniad 1.5 medr i ffwrdd o'r ffin a ddim yn amharu ar hawl i olau ei gymdogion;
- Cwblheir y datblygiad i safon uchel gyda llechi Cymraeg ar y to;
- Gofyn i'r Pwyllgor ganiatáu yn unol â'r argymhelliad.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:
1. 5 mlynedd
2. Sicrhau cwblhau'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd

3. Gorffeniad allanol i gydweddu â'r eiddo presennol.
4. To llechi

Nodyn Dŵr Cymru

**6. Cais rhif C15/0128/13/LL – Tir ger Canolfan Hamdden Plas Ffrancon, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda**

Amnewid math o unedau byw a ganiatawyd o dan apêl flaenorol (cyf. APP/Q6810/A/14/2215839) ar blotiau 5,6,7,8,11 a 12 o fflatiau i dai deulawr.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi y byddai'r bwriad yn golygu lleihau'r nifer o unedau byw o 24 i 18 ac y byddent bellach i gyd yn dai deulawr. Nodwyd bod gosodiad y safle yr un fath a ganiatawyd o dan apêl, credir fod y bwriad presennol a fyddai'n gweld lleihad yn y nifer o unedau ar y safle yn welliant gan leihau dwysedd y datblygiad a darparu tai yn hytrach na chymysgedd o dai a fflatiau.

Nodwyd y byddai 11 uned o'r 18 sy'n ffurfio'r cais yn cael eu diffinio fel unedau fforddiadwy.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:
- Bod dŵr yn llifo o safle'r cais i'r llwybr cyhoeddus ar ffin y safle sydd yn gwasanaethu 2 ysgol a'r Ganolfan Hamdden, felly bod angen gosod amod draenio;
- Bod angen sicrhau diogelwch defnyddwyr y llwybr gan osod rhwystrau;
- Cwestiynu pam fod yr unedau fforddiadwy ar y safle sy'n llygredig ar hyn o bryd. Dylid ail-edrych ar y rhaniad.
- Beth oedd y sefyllfa o ran y tir llygredig?

(c) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu:-
- Yr argymhellir gosod amod traenio yn yr adroddiad sydd yn adlewyrchu'r amodau a roddwyd ar yr apêl felly byddai'n afresymol ychwanegu ato;
- O ran dŵr yn llifo i'r llwybr cyhoeddus, y byddai'n codi'r mater efo'r swyddog perthnasol i basio'r wybodaeth ymlaen.
- Trefniadau Iechyd a Diogelwch yn cael eu rheoli gan ddeddf Iechyd a Diogelwch a hyderir y gwneir hyn;
- Bod rhan o'r tir tu allan i'r ffin datblygu ac felly bod rheidrwydd i'r holl unedau ar y rhan hwn o'r safle fod yn rhai fforddiadwy;
- Bod tebygrwydd y byddai'n ddatblygiad gan gymdeithas tai;
- Ei fod yn safle cyn modurdy ac argymhellir gosod amod trin llygredd.

**PENDERFYNWYD dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r ymgeisydd gwblhau cytundeb 106 er mwyn sicrhau fod canran o'r tai yn rhai fforddiadwy ac i amodau perthnasol yn ymwneud â:**

1. Amser
2. Cydymffurfio gyda chynlluniau
3. Deunyddiau
4. Llechi
5. Tirlunio
6. Amodau priffyrdd
7. Trefniadau draenio'r safle
8. Trefniadau trin llygredd
9. Tynnu hawliau PD

**7. Cais rhif C15/0162/33/LL – Gallt y Beren, Rhydyclafdy**

Cais rhannol ôl-weithredol ar gyfer codi adeilad a'i ddefnyddio fel modurdy masnachol, newid adeilad a ganiatawyd ac a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel modurdy masnachol yng Ngallt y Beren i ddefnydd amaethyddol, ynghyd â gwelliannau bwriedig i'r fynedfa i'r B4415 o Hendre Wen.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Gorfodaeth ar gefndir y cais gan nodi bod lleoliad y cais yng nghefn gwlad y tu allan i ffiniau aneddiadau cydnabyddedig fel y'u diffinnir yn y CDUG ac oddi mewn i Ardal Gwarchod y Dirwedd.

Manylwyd ar hanes cynllunio'r safle gan dynnu sylw y gwrthodwyd cais i newid defnydd sied amaethyddol yn Hendre Wen i fod yn garej a gorsaf MOT ar 21 Chwefror 2013, ac o ganlyniad rhoddwyd rhybudd gorfodaeth i ddiweddu'r defnydd a dymchwel yr adeilad a ddefnyddir fel modurdy masnachol a symud yr holl ddeunydd cysylltiedig â'r defnydd hwnnw oddi ar y safle.

Adroddwyd yr apeliwyd y rhybudd gorfodaeth a'r gwrthodiad cynllunio, gwrthodwyd y ddwy apêl. Diwygiwyd y rhybudd gorfodaeth, yn unol â phenderfyniad yr Arolygiaeth Cynllunio, er mwyn ymestyn y cyfnod cydymffurfio efo'r rhybudd i 12 mis. Nodwyd y byddai'r cyfnod yn dod i ben ar 4 Mai 2015, ond nid oedd unrhyw ymgais wedi ei wneud hyd yn hyn i gydymffurfio ag anghenion y rhybudd.

Tynnwyd sylw y derbyniwyd 6 llythyr o gefnogaeth ers cyhoeddi'r adroddiad.

Nodwyd gan fod y datblygiad yn un diwydiannol ei fod yn hanfodol ystyried os oes gan y datblygiad anghenion lleoli arbennig dan bolisi D5 o'r CDUG, nid oes unrhyw angen eithriadol i leoli busnes ar y safle penodol hwn yn arbennig o gofio bod gan yr ymgeisydd fusnes sefydledig mewn sied ar y fferm deuluol gyferbyn a'r safle yn bresennol, oddeutu 280m o'r safle.

Nodwyd yn dilyn ystyriaeth o'r polisïau cynllunio perthnasol ystyrir fod y bwriad yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad yr ardal, ac nid oes cyfiawnhad dros leoli'r datblygiad ar y safle hwn.

Pwysleisiwyd fod penderfyniad yr Arolygiaeth Cynllunio ar ran Gweinidogion Cymru i wrthod y cais yn cefnogi safbwynt y Cyngor yn yr achos hwn i wrthod apêl yn erbyn gwrthodiad cais cynllunio blaenorol a rhybudd gorfodaeth, nid oes unrhyw dystiolaeth ychwanegol wedi cyflwyno ar y cais hwn fyddai'n golygu gwrthdroi penderfyniad yr Arolygydd.

(b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol:-

- Y cyflwynwyd fel rhan o'r cais astudiaeth tirwedd arbenigol a oedd yn nodi na fyddai effaith sylweddol ar gymeriad tirwedd yr ardal ac na chafodd ystyriaeth lawn gan y Cyngor wrth lunio'r argymhelliad;
- Y bwriedir plannu i greu sgrinio a phaentio'r adeilad yn wyrdd er mwyn lliniaru'r effaith weledol;
- Bod y cynlluniau wedi eu diwygio i ymateb i bryderon a godwyd gan yr arolygydd;
- Bod yr Uned Briffyrdd o ganlyniad i'r cynigion diwygiedig ddim yn gwrthwynebu'r fynedfa;
- Bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi lleoliad y busnes;
- Bod y busnes yn hir sefydledig ac yn llwyddiannus gyda 6 aelod o staff;
- Yn ffurf o arallgyfeirio amaethyddol;
- Bod Uned Cefnogi Busnes y Cyngor wedi cadarnhau nad oes safle addas i ail-leolir busnes yn yr ardal;

- Gad nad oes lleoliad arall addas roedd y bwriad yn eithriad o dan bolisi D7 o'r CDUG;
- Bod yr ymgeisydd wedi cymryd bob cam posib i ymateb i'r pryderon;
- Bod cefnogaeth leol i'r busnes;
- Gofynnir i'r Pwyllgor gefnogi'r cais.

(c) Gwnaed y prif bwyntiau canlynol gan yr aelod lleol (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn):-

- Bod y safle yn gartref i'r busnes ers 10 mlynedd;
- Ei fod yn fusnes llwyddiannus yn ganol cefn gwlad;
- Y busnes yn cyflogi 6 aelod o staff a'u bod yn swyddi gwerthfawr mewn ardal wledig lle nad oes llawer o swyddi;
- Bod y busnes yn cyfrannu'n sylweddol i'r economi leol;
- Bod gwelliannau i'r fynedfa yn gwella diogelwch ar y ffordd;
- Bod cefnogaeth gref i'r busnes gyda'r Cyngor Cymuned yn gefnogol, 136 o bobl wedi llofnodi deiseb yr ymgeisydd o blaid y cais a derbyniodd y Gwasanaeth Cynllunio 81 llythyr o gefnogaeth;
- Bod y cyfleusterau modern a leolir yn yr adeilad yn angenrheidiol i'r busnes a bod modurdai eraill yn ei ddefnyddio;
- Bod y cwmni wedi cyflogi apprentis sydd bellach wedi cymhwyso a bod yr ymgeisydd yn ystyried cymryd mwy o brentisiaid;
- Y derbyniwyd caniatâd cynllunio ar gyfer storfa amaethyddol yn 2009;
- Roedd rhaid israddio'r fferm pan fu gorfod gwerthu 120 acer a stoc ac fe fuddsoddwyd yn y busnes yn Hendre Wen;
- Nad oedd lleoliad arall addas ar gyfer y busnes a bod cyfrifydd y busnes yn bryderus os gwrthodir y cais;
- Byddai gwrthod y cais yn golygu colli gwaith yng nghefn gwlad ynghyd â bywoliaeth teulu'r ymgeisydd.

Cynigwyd ac eiliwyd i wrthod y cais.

(ch) Nodwyd y sylwadau canlynol o blaid yr argymhelliad:

- Yn cydymdeimlo â'r ymgeisydd ond bod y bwriad yn mynd yn erbyn 7 polisi o'r CDUG;
- Rhaid dilyn penderfyniad yr Arolygiaeth Cynllunio;
- Bod angen swyddi ond lleolir y busnes yn y man anghywir;
- Bod yr arolygydd wedi cefnogi penderfyniad y swyddogion ac ni ellir tanseilio penderfyniad yr arolygydd;
- Bod yr arolygydd yn ei benderfyniad yn nodi "dof i'r casgliad nad yw'r manteision o ran cyfraniad at dwf economaidd, menter wledig a chyflogaeth yn gorbwyso'r niwed sy'n cael ei achosi i gymeriad a golwg tirwedd yr ardal, a'r angen i sicrhau bod datblygiad newydd yn cael ei leoli mewn man cynaliadwy."
- Bod angen penderfynu yn unol â'r polisïau er sicrhau tegwch i bob ymgeisydd.

(d) Nodwyd y sylwadau canlynol yn groes i'r argymhelliad:

- Bod y busnes yn cyflogi 6 aelod o staff sydd yn bwysig yn ardal Dwyfor o ystyried yr hinsawdd ariannol;
- Bod y mwyafrif o ardal Pen Llŷn yn dir agored ac er bod angen gwarchod cadwraeth bod angen rhoi blaenoriaeth i'r economi i gadw pobl leol yn yr ardal;
- Pe ail-leolir y busnes byddai cynnydd ôl-traed carbon gan fod rhaid i gwsmeriaid deithio yn bellach gan gynyddu lefelau traffig yn ystod yr Haf;
- Bod yr ymgeisydd wedi buddsoddi yn helaeth ac y dylid cefnogi'r cais;
- Bod angen sicrhau swyddi er mwyn diogelu/cryfhau'r diwylliant Gymraeg;
- Y dylid ystyried cynnal ymweliad safle;
- Ddim yn gweld bod gwahaniaeth rhwng adeilad amaethyddol a diwydiannol;

- Bod y busnes wedi datblygu'n naturiol ac yn dangos bod angen y gwasanaeth yn gefn gwlad;
- Bod ffermwyr yn arallgyfeirio i helpu'r economi leol;
- Os gosodir cynsail wrth ganiatáu'r datblygiad yna fyddai'n anfon neges bositif y cefnogir busnes lleol ac ieuenctid lleol.

(dd) Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio:

- Bod rhybudd gorfodaeth mewn lle a bod yr apêl i'r gwrthodiad cynllunio a'r rhybudd gorfodaeth wedi ei wrthod gan yr Arolygydd;
- Y rhoddir ystyriaeth i fudd economaidd y datblygiad wrth ddod i benderfyniad ac mae'r elfen economaidd o blaid y cais;
- Bod rhaid penderfynu yn unol â'r polisïau a bod angen bod yn gyson yng nghyswllt materion egwyddor yng nghefn gwlad agored;
- Bod y cais ar gyfer cadw adeilad 264m$^2$ ar gyfer defnydd diwydiannol heb ganiatâd a bod newidiadau i'r fynedfa wedi eu gwneud heb ganiatâd cynllunio. Gan wneud gwaith heb unrhyw ganiatâd bod risg i'r ymgeisydd na fyddai'r datblygiad yn cydymffurfio efo'r polisïau;
- Pe byddai'r Pwyllgor yn penderfynu caniatáu'r cais, y byddai'n cyfeirio'r mater i gyfnod cnoi cil yn unol â'r drefn safonol gan fod risgiau i'r Cyngor.

(e) Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol i **wrthod y cais**:

**O blaid y cynnig i wrthod y cais, (5)** Y Cynghorwyr: Gwen Griffith, Anne T. Lloyd Jones, June Marshall, Tudor Owen a Hefin Williams.

**Yn erbyn y cynnig i wrthod y cais, (7)** Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Endaf Cooke, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Owain Williams ac Eurig Wyn.

**Atal, (1)** Y Cynghorydd Michael Sol Owen

(f) Gwnaed, ac eiliwyd cynnig i ganiatáu'r cais oherwydd y budd economaidd, cyflogaeth yn lleol, angen lleol yn ddaearyddol a diffyg busnes cyffelyb o fewn cyrraedd.

(ff) Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol i **ganiatáu'r cais**:

**O blaid y cynnig i ganiatáu'r cais, (7)** Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Endaf Cooke, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Owain Williams ac Eurig Wyn.

**Yn erbyn y cynnig i ganiatáu'r cais, (5)** Y Cynghorwyr: Gwen Griffith, Anne T. Lloyd Jones, June Marshall, Tudor Owen a Hefin Williams.

**Atal, (1)** Y Cynghorydd Michael Sol Owen

**PENDERFYNWYD yn groes i argymhelliad y swyddogion i ganiatáu'r cais.**

Rhesymau:
Polisi D7 o'r CDUG – y budd economaidd
Cyflogaeth yn lleol
Angen lleol yn ddaearyddol
Diffyg busnes cyffelyb o fewn cyrraedd y safle

**Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio ei fwriad, yn unol â Rheolau Gweithdrefn y pwyllgor hwn, i gyfeirio'r cais i gyfnod cnoi cil gan ddod ag adroddiad pellach gerbron y pwyllgor yn amlygu'r risgiau ynghlwm â chaniatáu'r cais.**

**8. Cais rhif C15/0149/11/LL – 25, Orme Road, Bangor**

Dymchwel estyniadau a strwythurau presennol a chodi estyniad unllawr newydd i gefn yr eiddo.

(a) Ymhelaethodd y Rheolwr Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y safle wedi ei leoli o fewn ffin datblygu Dinas Bangor. Nodwyd ni ystyrir fod y bwriad yn ormodol o ran maint nac uchder, felly ei fod o ran maint, dyluniad a deunyddiau yn cydweddu â'r eiddo presennol a thai cyfagos.

O ran yr ymgynghoriad cyhoeddus, y prif wrthwynebiad a dderbyniwyd oedd pryder am effaith y bwriad ar dai cyfochrog. Diwygiwyd y cais o ganlyniad i'r pryderon hyn ag fe gadarnhawyd gan un cymydog o wneud hyn sef codi wal yr estyniad newydd o fewn y safle yn hytrach nag fel wal rannol newydd, nad oedd yn pryderu.

Roedd y datblygiad yn cydymffurfio gyda'r CDUG am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad.

(b) Cynigwyd a eiliwyd i ganiatáu'r cais.

Nododd aelod, tra'n cydnabod bod y cais am estyniad yr un fath a adeiladwyd yn gyfagos, ei phryder bod datblygiadau ym Mangor gan gynnwys datblygiadau ar gyn safle'r Santes Fair a Stryd y Deon yn golygu gorddarpariaeth o lety myfyrwyr yn y Ddinas.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais.**

Amodau:
1. Amser
2. Cydymffurfio gyda chynlluniau
3. Deunyddiau
4. Nodyn wal rhannol

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 2.40pm.